**Y Pwyllgor Cyllid**

**FIN(4)-07-14(p2): 30 Ebrill 2014**

**Tystiolaeth Ysgrifenedig Lywodraeth Cymru: Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid – Cyllid Cymru**

## Strwythur Cyllid Cymru

I. Is-gwmni hyd braich yw Cyllid Cymru, sy’n eiddo i Lywodraeth Cymru. Mae llawer wedi’i ddirprwyo iddo o ran y penderfyniadau y caiff eu gwneud o ddydd i ddydd. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cael dylanwadu ar benderfyniadau buddsoddi unigol y Cwmni. Mae hyn yn bwysig gan fod gan Cyllid Cymru fuddsoddwyr sector preifat ac ni fyddent am i’w harian ddod o dan ddylanwad gwleidyddol.

II. Ceidw Llywodraeth Cymru ei hawliau fel sylwebydd yng nghyfarfodydd Bwrdd Cyllid Cymru a chyfarfodydd ei Bwyllgor Archwilio ac mae Cyfarwyddwr Cyffredinol Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gorfod cymeradwyo cynllun busnes blynyddol Cyllid Cymru. Mae’r Gweinidog yn cwrdd yn rheolaidd â Chadeirydd Cyllid Cymru.

III. Fel cwmni cyhoeddus cyfyngedig, rhaid i Cyllid Cymru gydymffurfio â fframwaith llywodraethu corfforaethol llym. Mae’n cael ei archwilio’n fewnol ac yn allanol ac mae’r Bwrdd wedi sefydlu nifer o is-bwyllgorau gan gynnwys pwyllgor archwilio, pwyllgor cyflogau, pwyllgor enwebiadau a phwyllgor risg.

## Cronfeydd y mae Cyllid Cymru yn eu cynnal

I. Dyma’r cronfeydd byw sy’n cael eu rheoli gan Cyllid Cymru: Cronfa JEREMIE (£150m), Cronfa Buddsoddi BBaChau Cymru (£40m), Y Gronfa Gwyddorau Bywyd (£50m), Y Gronfa Eiddo (£10m), Cronfa Fenthyciadau i Ficrofusnesau (£6m), a’r Gronfa Twf Cyfalaf newydd i Gymru (£20m). Mae Llywodraeth Cymru’n darparu cyfalaf a chymorth ar ffurf cymorth grant iddo. Crewyd y cronfeydd hyn gan ddefnyddio cyfuniad o arian o’r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru a’r Sector Preifat. Mae Cyllid Cymru yn rheoli hefyd £170m cynllun Cymorth i Brynu Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

## Adolygiad o’r Mynediad at Gyllid

I. Ers dechrau’r argyfwng ariannol, bu llawer o drafod ymhlith darparwyr cyllid, BBaChau a Llywodraethau ynghylch yr arian sydd ar gael i fusnesau. O gofio bod yr amodau economaidd anodd yn parhau a bod rownd nesaf y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd ar fin dechrau, barnwyd bod yr amser yn briodol i adolygu strategaeth y Llywodraeth Cymru ynghylch mynediad at gyllid, gan gynnwys rôl Cyllid Cymru.

II. Gyda hyn yn gefndir, penodais yr Athro Dylan Jones Evans i ystyried pa mor effeithlon y mae’r ffynonellau ariannu presennol yn gwasanaethu busnesau bach a chanolig Cymru ac i gynnig argymhellion gweithredu.

III. Cafwyd nifer o argymhellion gan yr Athro Jones Evans, gan gynnwys creu Banc Datblygu i Gymru. Mae hwn yn gynnig o bwys a bodd gofyn ei ystyried yn ddwys ac yn drylwyr. Rwyf wedi comisiynu’r Athro i gynnal astudiaeth o ddichonolrwydd y syniad.

IV. Rwyf hefyd wedi comisiynu Robert Lloyd Griffiths i edrych a oes modd alinio cymorth ariannol ac anariannol Llywodraeth Cymru a Cyllid Cymru er mwyn cynnig help mwy cydgysylltiedig i BBaChau yng Nghymru.

V. Croesawaf her ychwanegol y Pwyllgor Cyllid gan edrych ymlaen at glywed eu barn i’m helpu i ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

VI. Wrth ddisgwyl canlyniad yr ymchwiliad, rwyf wedi gofyn i’m swyddogion adolygu cylch gwaith Cyllid Cymru i wneud yn siŵr ei fod yn gyson â’m blaenoriaethau ar gyfer swyddi a thwf cynaliadwy.